

CC3



Helo. Sut ydych chi?

Dw i'n gyffrous achos dw i'n mynd i barti heno.

Lwcus! Sut alla i'ch helpu chi?

Dw i eisiau brechdanau, os gwelwch yn dda.

Pa fath o frechdanau ydych chi eisiau?

Hoffwn i gael brechdanau ham, plis gyda salad a mayo. Dw i wrth fy modd gyda brechdanau ham achos maen nhw'n flasus.

Dyma chi. Ydych chi eisiau diod?



Ydw. Oes diod poeth gyda chi?

Nag oes, does dim diod poeth gyda fi. Beth am ddiod oer? Mae sudd oren, sudd afal a dŵr gyda fi.

Dyna drueni - mae'n well gyda fi ddiod poeth! Ga i sudd oren, plis?

Cewch, wrth gwrs. Dyma chi.

Diolch yn fawr. Dw i'n hoffi sudd oren achos mae'n felys.



Gwych! Ydych chi eisiau rhywbeth arall?

Dim diolch. Faint ydy'r bil?

Pedair punt a saith deg wyth ceiniog, os gwelwch yn dda.

Dyma bum punt.



Dyma ddau ddeg dau ceiniog o newid.



Diolch yn fawr.

Ydych chi wedi gorffen?

Ydw, diolch.

Sut roedd y bwyd?

Roedd y bwyd yn hyfryd - blasus iawn.

Diolch. Hwyl fawr!

Hwyl fawr!

